Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cyfarfod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: 13 Chwefror 2024

Crynodeb o funudau'r cyfarfod a chynhaliwyd ar 13 Chwefror 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 13 Chwefror 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 13 Chwefror 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-13-chwefror-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Yn bresennol

Cyflwyniad

Diweddariad gan y Cadeirydd

Nodiadau cyfarfod mis Ionawr (llawn a chryno)

Adroddiad Blynyddol 2024 i 2025 a chyfathrebu

Crynodeb o Benderfyniadau 2023 i 2024

Canllawiau ar gyfer prif gynghorau, cynghorau cymuned a thref, awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub, a chyd-bwyllgorau corfforedig yng Nghymru: taliadau cydnabyddiaeth i aelodau

Gwariant cyllideb 2023 i 2024

Diweddariad ar ymgysylltu â rhanddeiliaid

Cynllun gwaith 2024 i 2025

Unrhyw fater arall



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-13-chwefror-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Yn bresennol

Frances Duffy, Cadeirydd
Saz Willey, Is-gadeirydd
Bev Smith, aelod
Dianne Bevan, aelod
Sara Rees, ysgrifenyddiaeth
Shan Whitby, ysgrifenyddiaeth

# Cyflwyniad

Cynhaliwyd cyfarfod o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) ddydd Mawrth 13 Chwefror 2024.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Kate Watkins, aelod.

Nod y cyfarfod oedd:

- diweddariad gan Gadeirydd y Panel
- adolygu a chytuno ar nodiadau cyfarfod mis Mawrth 2024 (nodiadau llawn a chryno), gan nodi camau gweithredu a diweddariadau'r Ysgrifenyddiaeth
- trafod Adroddiad Blynyddol 2024 i 2025 a chyfathrebu ynghylch yr Adroddiad
- adolygu Crynodeb o Benderfyniadau 2023 i 2024
- adolygu gwariant cyllideb 2023 i 2024
- trafod gofynion Canllawiau
- diweddariad ar ymgysylltu â rhanddeiliaid
- adolygiad o gynllun gwaith 2024 i 2025
- trafod unrhyw faterion eraill

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-13-chwefror-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Diweddariad gan y Cadeirydd

Nododd y Panel y gwaith pontio o'r Panel a'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ("y Comisiwn") a fyddai'n cael ei wneud cyn sefydlu Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ym mis Ebrill 2025.

Cytunodd y Panel i weithio gyda'r Comisiwn i gyfnewid gwybodaeth a deall y math o sgiliau a fyddai'n ofynnol gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Nododd y Panel yr adolygiad mawr o Gynghorau Cymuned a Thref a gynhelir gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Democrataidd.

## Nodiadau cyfarfod mis Ionawr (llawn a chryno)

Cytunodd holl aelodau'r Panel a oedd yn bresennol ar y nodiadau llawn a chryno o gyfarfod mis Ionawr.

Trafododd y Panel ddiweddariad gan yr Ysgrifenyddiaeth a'i nodi. Roedd y diweddariad yn cynnwys camau gweithredu ac ymholiadau gan wahanol randdeiliaid.

## Adroddiad Blynyddol 2024 i 2025 a chyfathrebu

Trafododd y Panel gyhoeddi a chyfathrebu'r Adroddiad Blynyddol terfynol drafft.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-13-chwefror-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Crynodeb o Benderfyniadau 2023 i 2024

Cytunodd y Panel i gyhoeddi Penderfyniadau ar gyfer 2023 i 2024 ar y wefan. O 1 Ebrill 2024, bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu disodli gan grynodeb o benderfyniadau 2024 i 2025.

## Canllawiau ar gyfer prif gynghorau, cynghorau cymuned a thref, awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub, a chyd-bwyllgorau corfforedig yng Nghymru: taliadau cydnabyddiaeth i aelodau

Cytunodd y Panel i gyhoeddi cnllawiau ar gyfer prif gynghorau, cynghorau cymuned a thref, awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub, a chyd-bwyllgorau corfforedig yng Nghymru taliadau cydnabyddiaeth i aelodau.

## Gwariant cyllideb 2023 i 2024

Cytunodd y Panel ar wariant ar gyfer 2023 i 2024.

## Diweddariad ar ymgysylltu â rhanddeiliaid

Nododd y Panel yr adborth o gyfarfod y Cadeirydd â Phrif Weithredwr a Chadeirydd Un Llais Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-13-chwefror-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cytunodd y Panel y byddai dau aelod yn mynychu Cynhadledd Un Llais Cymru ar 27 Mawrth, gan gytunwyd i noddi'r Wobr Iechyd Democrataidd yn dilyn y Gynhadledd.

## Cynllun gwaith 2024 i 2025

Cytunodd y Panel i gael cefnogaeth y Comisiwn wrth gyflawni meysydd penodol o gynllun gwaith 2024 i 2025.

Nododd y Panel adborth o gyfarfod y Cadeirydd â swyddogion polisi o Lywodraeth yr Alban, Cynullydd Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth Awdurdodau Lleol yr Alban (SLARC), a COSLA, sef llais Llywodraeth Leol yn yr Alban, ynghylch taliadau cydnabyddiaeth i aelodau etholedig yn yr Alban.

Nododd y Panel benodiad comisiynwyr yn ddiweddar i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

## Unrhyw fater arall

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 12 Mawrth: Diwrnod Strategaeth.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-13-chwefror-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.